



WALES **AUDIT** OFFICE
SWYDDFA **ARCHWILIO** CYMRU

Ansawdd Data

BILI Prifysgol Betsi Cadwaladr

Blwyddyn archwilio: 2010-11

Cyhoeddwyd: Ebrill 2012

Cyfeirnod y ddogfen: 178A2012

Statws yr adroddiad

Jenny Trevor a gyflawnodd y gwaith.

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol BILI Prifysgol Betsi Cadwaladr fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd parti'n perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

Cynnwys

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwella ei drefniadau ar gyfer llunio data diliys a chywir, ond mae angen iddynt fod yn fwy ffurfiol, sicrhau cysondeb arfer rhwng safleoedd a chynnwys dulliau o ddarparu gwell sicrwydd.

Adroddiad cryno

Crynodeb ac Argymhellion	4
--------------------------	---

Adroddiad manwl

Mae ymrwymiad i wella ansawdd data ond mae angen i drefniadau llywodraethu a rheoli gael eu datblygu ymhellach	7
--	---

Mae'r cyfrifoldebau, gweithdrefnau a phrosesau o ran sicrhau ansawdd data yn ddigonol ac mae'r trefniadau ar gyfer rhoi adborth yn effeithiol ond nid oes arfer cyson rhwng safleoedd	9
---	---

Dengys ein dadansoddiad o ddata fod y prosesau o ran ansawdd data yn weddol effeithiol, ond mae rhai meysydd i'w gwella	13
---	----

Atodiadau

Canlyniadau'r dadansoddiad o ddata demograffig cleifion	19
---	----

Adroddiad cryno

1. Mae'r GIG yng Nghymru yn defnyddio gwybodaeth fel rhan annatod o'r broses o ddarparu gwasanaethau iechyd. Ar lefel weithredol, mae cyrff y GIG yn llwyr ddibynnol ar systemau gwybodaeth electronig i gyflawni amrywiaeth o weithgareddau allweddol gan gynnwys:
 - gwaith gweinyddu, rhestru a threfnu ar gyfer cleifion;
 - prosesau diagnostig, trefnu profion, gofyn am ganlyniadau a'u gweld;
 - cyfuno llwybrau gofal sylfaenol ac eilaidd, gan rannu gwybodaeth hollbwysig am gleifion a allai achub bywydau;
 - systemau rheoli ariannol effeithiol a'i gwneud yn bosibl i reoli cynhyrchiant;
 - nodi anghenion cleifion ac anghenion demograffig, fel bod modd teilwra gwasanaethau a sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar feysydd lle gwelir y budd mwyaf; a
 - nodi a chyflawni canlyniadau clinigol a chanlyniadau busnes.
2. Dim ond os yw'r data sylfaenol o ansawdd da y bydd y wybodaeth a ddefnyddir i ategu gwaith rheoli a darparu gofal iechyd yn ddibynadwy. Noda Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru chwe elfen graidd sy'n effeithio ar ansawdd data sef amseroldeb, cyflawnrwydd, dilysrwydd, cysondeb, trachywiredd a chywirdeb. Er mai prin y gellir sicrhau bod data'n gwbl gywir drwy'r amser, mae'n hanfodol sicrhau bod gan gyrff iechyd drefniadau priodol ac effeithiol ar waith o ran ansawdd data er mwyn lleihau risg glinigol, cefnogi systemau cyflawni a rheoli gweithredol effeithiol ac ategu gwaith rheoli perfformiad a phrosesau sicrwydd y Bwrdd Iechyd.
3. Yn 2008, cynhaliodd y Rhaglen Gwybodaeth Iechyd Gorfforaethol adolygiad o hen Ymddiriedolaethau'r GIG i asesu'r trefniadau o ran ansawdd data. Nododd yr adroddiad amrywiaeth o arferion gwahanol a gwnaeth nifer o argymhellion i wella trefniadau. Cafodd yr argymhellion eu cyflwyno'n ffurfiol i holl Ymddiriedolaethau'r GIG a Byrddau Iechyd Lleol mewn Llythyr Gweinidogol, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2008. Mae gwaith y Rhaglen bellach yn rhan o Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru. Er nad yw'r Gwasanaeth wedi gwneud gwaith dilynol ar yr adroddiad gwreiddiol, mae'n parhau i gydgyssylltu a monitro dilysrwydd data allweddol.
4. Fel rhan o'i gwaith i adolygu trefniadau cyrff y GIG i sicrhau'r defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau, mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi archwilio trefniadau ansawdd data ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd). Mae'r gwaith wedi cael ei gynllunio gyda mewnbwn gan y Gwasanaeth Gwybodeg ac fe'i cynhelir ym mhob Bwrdd Iechyd a holl Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru.
5. Er nad yw'r adolygiad hwn yn deillio'n uniongyrchol o argymhellion Gweinidogol 2008, rydym wedi ceisio cynnwys yr holl feysydd hyn yn ein gwaith. Felly, mae'r archwiliad wedi ystyried y canlynol:
 - trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd mewn perthynas ag ansawdd data;
 - trefniadau gweithredol ansawdd data, gan gynnwys cyfrifoldebau, prosesau, gweithdrefnau a pholisi lleol a dulliau mewnol o fonitro effeithiolrwydd prosesau ansawdd data a chyflwyno adroddiadau arnynt; a

-
- pherfformiad ansawdd data.
6. Wrth gynnal yr adolygiad hwn, rydym wedi asesu dogfennaeth berthnasol allweddol, adroddiadau ac wedi cynnal cyfres o gyfweiliadau ag amrywiaeth o staff. Rydym hefyd wedi cynnal ymarfer dadansoddi data i nodi i ba raddau y ceir dyblygu o ran cofnodion cleifion o fewn a rhwng y brif System(au) Gweinyddu Cleifion a system wybodaeth Radioleg, RADIS, fel dangosydd o effeithiolrwydd trefniadau ansawdd data. Mae'r adolygiad hwn wedi canolbwyntio ar drefniadau ansawdd data ar gyfer data'r Bwrdd lechyd ei hun, ac felly nid yw'n ystyried trefniadau ansawdd data ar gyfer setiau data gofal sylfaenol.
 7. Nod yr adolygiad hwn oedd nodi p'un a oes gan y Bwrdd lechyd drefniadau ansawdd data effeithiol.
 8. Daethom i'r casgliad canlynol: Mae'r Bwrdd yn gwella ei drefniadau ar gyfer llunio data dilys a chywir, ond mae angen iddynt fod yn fwy ffurfiol, sicrhau cysondeb arfer rhwng safleoedd a chynnwys dulliau o ddarparu gwell sicrwydd. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:
 - mae ymrwymiad i wella ansawdd data ond mae angen i drefniadau llywodraethu a rheoli gael eu datblygu ymhellach;
 - mae'r cyfrifoldebau, gweithdrefnau a phrosesau o ran sicrhau ansawdd data yn ddigonol ac mae'r trefniadau ar gyfer rhoi adborth yn effeithiol ond nid oes cysondeb arfer rhwng safleoedd; a
 - dengys ein dadansoddiad o ddata fod y prosesau o ran ansawdd data yn weddol effeithiol, ond mae rhai meysydd i'w gwella.

Argymhellion

9. Er mwyn helpu'r Bwrdd i symud ymlaen rydym wedi gwneud yr argymhellion canlyno.

Sicrhau ansawdd data

- | | |
|----|---|
| A1 | Llunio adroddiad blynyddol ar ansawdd data fel bod sicrwydd ar lefel sefydliadol o'r trefniadau sydd ar waith i sicrhau ansawdd data, ac effeithiolrwydd y trefniadau. |
| A2 | Sicrhau bod y trefniadau newydd o ran atebolrwydd a chyfrifoldeb yn: <ul style="list-style-type: none">• cael eu cyfleu'n glir ac yn cael eu deall gan bob aelod o staff sy'n ymwneud ag ansawdd data;• cael eu monitro a'u hadolygu'n rheolaidd;• wedi'u cefnogi gan fforwm ansawdd data effeithiol. |

Proses ansawdd data

- A3 Sicrhau bod prosesau ansawdd data cyson a safonol yn cael eu datblygu a'u gweithredu sy'n cwmpasu'r canlynol:
- y wybodaeth sydd gan y Bwrdd Iechyd a hefyd wybodaeth mae'n ei defnyddio a roddir gan randdeiliaid allweddol, megis gofal sylfaenol;
 - prosesau ansawdd data i ategu gwaith monitro ansawdd gwybodaeth am berfformiad a gwybodaeth glinigol;
 - prosesau codio clinigol safonol;
 - cefnogaeth barhaus i brosiect y Prif Fyngai Cleifion; a
 - hyfforddiant ffurfiol i sicrhau bod pob safle yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau mewn ffordd gyson.
- A4 Sicrhau bod data o ansawdd digonol fel nad yw amser uwch glinigwyr na rheolwyr yn cael ei ddefnyddio'n amhriodol i ddatrys problemau o ran ansawdd data.

Monitro ansawdd data

- A5 Sicrhau bod dulliau o gynnal archwiliadau annibynnol o drefniadau a phroffion ansawdd data ar waith ar gyfer meysydd gwybodaeth craidd. Dylai'r gwaith archwilio hwn gael ei ddefnyddio i helpu i roi sicrwydd i'r Bwrdd.

Adroddiad manwl

Mae ymrwymiad i wella ansawdd data ond mae angen i drefniadau llywodraethu a rheoli gael eu datblygu ymhellach

Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymwybodol o bwysigrwydd ansawdd data ac mae'n ymrwymedig i wella'r agenda o ran ansawdd data

10. Sefydlodd y Bwrdd Iechyd Bwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth, a wnaeth gyfarfod yn rheolaidd dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Er bod y Bwrdd Iechyd a'i reolwyr yn cydnabod bod ansawdd data da yn hanfodol o ran cynllunio, datblygu a darparu ei wasanaethau nid oedd y trefniant hwn yn fforwm priodol i fynd i'r afael â materion yn ymwneud ag ansawdd gwybodaeth a llywodraethu gwybodaeth.
11. Er mwyn atgyfnerthu'r trefniadau blaenorol, mae gan y Bwrdd Iechyd ddwy Weinyddiaeth bellach sy'n gyfrifol am ansawdd data a llywodraethu gwybodaeth. Ar hyn o bryd, y Cyfarwyddwr Meddygol a'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol sy'n gyfrifol am ansawdd data, a'r Cyfarwyddwr Llywodraethu a Chyfathrebu sy'n gyfrifol am lywodraethu gwybodaeth, diogelwch a deddfwriaeth. Hefyd, lle y caiff cyfrifoldebau eu rhannu rhwng dwy Weinyddiaeth mae bob amser risg nad eir i'r afael â materion yn briodol am nad yw rheolwyr yn siŵr sut i gyfeirio materion at lefel uwch. I oresgyn hyn, bydd angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod materion atebolrwydd a chyfrifoldeb yn cael eu cyfleu'n glir ac yn cael eu deall gan bawb sy'n ymwneud ag ansawdd data. Bydd angen i'r Bwrdd fonitro ei drefniadau a'u hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn para'n effeithiol.
12. Gwneir cynnydd i ffurfioli trefniadau ac aildanio'r agenda ansawdd data, a gollodd beth momentwm yn dilyn yr ad-drefnu. Mae'r materion sy'n ymwneud â llywodraethu gwybodaeth ac ansawdd gwybodaeth yn gymhleth ac yn cynnwys sawl adran a phroffesiwn gwahanol o fewn bwrdd iechyd. Mae'n bwysig sicrhau bod fforwm priodol ac effeithiol ar gael lle y gall materion a risgiau gael eu rheoli'n briodol.

Mae'r Bwrdd yn dechrau sefydlu grwpiau rheoli a fydd yn ystyried ansawdd data, ond mae trefniadau ar gyfer rhoi sicrwydd i'r Bwrdd yn wan

13. Nid yw'r trefniadau ar gyfer llywodraethu ansawdd data wedi'u cydgysylltu'n llawn eto rhwng y tri phrif safle ysbyty o fewn y Bwrdd Iechyd. Ni chafodd y grwpiau a edrychai ar ansawdd data yn y gorffennol eu cynnwys yn nhrefniadau newydd y Bwrdd Iechyd. Yn fwy diweddar, rhoddwyd trefniadau llywodraethu gwybodeg newydd ar waith, sy'n cyfateb i'r broses o ad-drefnu'r adran Wybodeg. Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth grwpiau sylfaenol sydd, er eu bod ar gam cychwynol o hyd, wedi'u sefydlu gyda'r nod o gefnogi'r agenda ansawdd data. Yn eu plith mae'r canlynol:
 - Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth;

-
- Grŵp Cofnodion Iechyd;
 - Grŵp Gwybodeg Iechyd; a
 - Grŵp Datblygu Gwybodeg.
14. Mae'n bwysig sicrhau bod y grwpiau hyn yn dod yn effeithiol a dylai'r Bwrdd gael y wybodaeth ddiweddaraf am y trefniadau hyn yn rheolaidd nes ei fod yn hyderus eu bod yn rhan annatod o'r drefn a bod materion o ran ansawdd data, risgiau a llywodraethu yn cael eu rheoli'n dda.
 15. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw fforwm ansawdd data nac adroddiad blynyddol ffurfiol ar ansawdd data, fel yr argymhellwyd yn 2008 gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd. Serch hynny, mae ansawdd data yn cael ei drafod mewn grwpiau clinigol eraill ond nid fel eitem sefydlog ar yr agenda ac nid oes llinell atebolrwydd clir i roi sicrwydd o ran ansawdd data i riant bwyllgorau na grwpiau. Ymhlith yr enghreifftiau o'r grwpiau hyn mae'r Grŵp Gwybodeg Clinigol, y Grŵp Archwilio Clinigol a'r Grŵp Gwybodeg Nyrsio.
 16. Hefyd, caiff ansawdd data ei drafod yn rheolaidd mewn grwpiau corfforaethol megis cyfarfodydd y Pwyllgorau Cyllid a Pherfformiad, Archwilio, Ansawdd a Diogelwch a'r Bwrdd Cyfarwyddwyr. Mae hefyd yn cael ei gynnwys mewn trafodaethau gan y Bwrdd ar berfformiad (clinigol a gweithredol) a chyllid.
 17. Caiff meysydd pwysig cenedlaethol eu blaenoriaethu, megis adroddiadau dilysu data'r Gwasanaeth Gwybodeg, yn unol â'r adnoddau sydd ar gael. Mae hyn yn gydnaws â chanllawiau cenedlaethol ar ansawdd data yn Safon Gofal Iechyd 19. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn canolbwyntio ar feysydd lleol, ond gwneir hyn fel rheol mewn ymateb i faterion a nodwyd neu fel rhan o fentrau lleol. Mae'n dda gweld bod perchenogaeth rheolwyr o faterion yn ymwneud ag ansawdd data wedi arwain at ariannu adnoddau codio clinigol a chymorth gweinyddol.
 18. Mae uwch reolwyr yn dangos ymwybyddiaeth o broblemau posibl ac o'r farn bod ansawdd data yn hanfodol i wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth. Er nad yw'r systemau ar y tri phrif safle bob amser yn cynhyrchu data y gellir ei gymharu'n uniongyrchol, mae'r rheolwyr yn deall y rhesymau dros hynny ac yn sicrhau bod modd dibynnu ar y wybodaeth. Mae hyn yn rhan o brosesau parhaus sicrhau ansawdd gwybodaeth am berfformiad ac nid yw'n rhoi unrhyw bwysau sylweddol o ran adnoddau ar yr adran Wybodeg. Fodd bynnag, mae'n bosibl nad yw defnyddio uwch glinigwyr na rheolwyr i sicrhau ansawdd data yn cynnig y ffordd fwyaf effeithlon o ddefnyddio eu hamser a dylai'r Bwrdd Iechyd geisio datrys hyn yn y tymor canolig.

Mae rolau a chyfrifoldebau ansawdd data ar waith ond nid yw'r rhain yn gyson rhwng safleoedd y Bwrdd Iechyd

19. Mae rolau, cyfrifoldebau a phrosesau ansawdd data ar waith ond gallant amrywio rhwng y safleoedd. Fodd bynnag, ni chrëwyd rôl ffurfiol Swyddog Ansawdd Data corfforaethol eto, a fyddai'n helpu i gysylltu trefniadau gweithredol ansawdd data â'r broses o roi sicrwydd i'r Bwrdd.

-
20. Fel rhan o waith ailstrwythuro parhaus, caiff disgrifiadau swydd gwybodeg eu hadolygu ar hyn o bryd ac mae ansawdd data yn cael ei gydnabod fel nodwedd allweddol. Mae'r disgrifiadau swydd presennol mewn rhai adrannau yn hen, ond mae'r disgrifiadau swydd a adolygwyd gennym yn cyfeirio at gyfrifoldebau dilysu data. Caiff atebolrwydd am ansawdd data ei gynnwys ym mhob disgrifiad swydd newydd, a gwnaethom nodi diwylliant da o gyfrifoldeb am ansawdd data, a oedd yn amlwg ar bob lefel o'r staff a'r rheolwyr a gyfwelwyd gennym.

Mae'r cyfrifoldebau, gweithdrefnau a phrosesau o ran sicrhau ansawdd data yn ddigonol ac mae'r trefniadau ar gyfer rhoi adborth yn effeithiol ond nid oes cysondeb arfer rhwng safleoedd

Nid oes polisi ansawdd data ar waith ar hyn o bryd, ond mae'n cael ei ddrafftio

21. Ar hyn o bryd, nid oes gan y Bwrdd Iechyd bolisi ar gyfer ansawdd data. Fodd bynnag, cydnabyddir bod angen un, ac mae wrthi'n cael ei lunio. Mae'r polisi data drafft nad yw wedi'i gymeradwyo eto yn cwmpasu'r rhan fwyaf o'r themâu allweddol o ran rheoli a gwella ansawdd data, gan gynnwys:
- rheoli ansawdd data;
 - cyfrifoldebau;
 - safonau data;
 - y defnydd o gofnodion gweinyddu cleifion;
 - diogelwch a chyfrinachedd;
 - monitro cydymffurfiaeth â'r polisi;
 - codio clinigol;
 - achredu data a chofnodion iechyd; a
 - hyfforddiant a chyfathrebu.
22. Er bod y polisi drafft yn cwmpasu pob agwedd ar wybodaeth a gedwir yn y tair system gweinyddu cleifion bresennol, nid yw wedi mynd i'r afael â'r holl wybodaeth a gedwir yn electronig o fewn y Bwrdd. Er enghraifft, gwybodaeth a ddefnyddir i gyflwyno adroddiadau ar berfformiad a data a roddir gan ddarparwyr eraill megis gofal sylfaenol.
23. Bydd angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod y polisi drafft yn cael ei ffurfioli a'i ddiweddarau'n gyflym er mwyn cynnwys yr hepgoriadau presennol. Hefyd, mae materion sy'n ymwneud â llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg yn newid yn gyflym a dylai'r polisi gael ei adolygu'n rheolaidd er mwyn mynd i'r afael â materion newydd a materion sy'n dod i'r amlwg.

Mae prosesau a gweithdrefnau ansawdd data ar waith ond gall y rhain amrywio rhwng safleoedd y Bwrdd Iechyd ac mewn rhai achosion mae angen eu diweddarau

- 24.** Caiff prosesau a gweithdrefnau ansawdd data eu dogfennu ar gyfer yr holl weithgareddau ym maes gwybodeg yn ôl arbenigedd; er bod y rhain yn ddigonol ar y cyfan mae angen i rai ohonynt gael eu diweddarau. Er enghraifft, mae'r prosesau canlynol ar waith:
- gweithdrefnau dyddiol a gaiff eu cynnal fel rhan o'r system gweinyddu cleifion i nodi cofrestriadau newydd;
 - cyflwyniadau wythnosol i Wasanaeth Demograffig Cymru ar y defnydd o rifau GIG;
 - polisïau a gweithdrefnau ar gyfer gweithgareddau codio clinigol;
 - gweithdrefnau cymorth ar gyfer derbyn, trosglwyddo a rhyddhau cleifion;
 - taflenni'r system gweinyddu cleifion ar gyfer yr holl systemau a ddefnyddir ar bob safle ar ddefnydd sylfaenol, a meysydd mwy penodol, er enghraifft, i staff Cofnodion Meddygol; a
 - gweithdrefnau olrhain nodiadau achos.
- 25.** Mae amrywiaeth o systemau electronig yn helpu i sicrhau ansawdd data, er enghraifft, Demograffeg Cymru, Medicode ar gyfer gwaith codio clinigol a RADIS ar gyfer gwybodaeth radiolegol. Mae'r systemau hyn yn galluogi staff i groesddilysu a dilysu gwybodaeth cleifion, a dylai helpu i wella ansawdd data cleifion, a'r broses o weinyddu gwaith codio.
- 26.** Mae prosesau codio clinigol yn ddigonol ond mae'r dull o weithredu yn amrywio rhwng safleoedd. Mae'r tîm Canolog yn codio fesul maes arbenigol a roddir i aelodau unigol o staff, mae tîm codio clinigol y Gorllewin yn gweithredu mewn ffordd debyg ond mae staff tîm y Dwyrain yn codio unrhyw faes arbenigol. Mae manteision a risgiau ynghlwm wrth y ddau ddull, ond mae angen i safleoedd weithredu mewn ffordd fwy cyson er mwyn sicrhau bod adnoddau yn cael eu defnyddio'n effeithiol a bod system gyson o fonitro ansawdd ar waith.
- 27.** Cafwyd problemau hanesyddol yn y Gorllewin, o ran amseroldeb gwaith codio clinigol, a allai effeithio ar gyflawnrwydd a chywirdeb rhai adroddiadau. Er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn, rhoddwyd arian ychwanegol i godwyr clinigol a chymorth gweinyddol fel rhan o fuddsoddiad o £1 filiwn. Fel rhan o'r rhaglen hon i ailffocysu adnoddau, buddsoddiwyd £600,000 mewn adnoddau staff. Bellach, aed i'r afael â'r ôl-groniad o waith codio ac ar hyn o bryd mae'n llai na mis ar gyfartaledd ar bob safle.
- 28.** Mae'r Bwrdd wedi cael ei ddewis fel un o'r safleoedd peilot ar gyfer Prif Fynegai Cleifion Lleol. Bydd yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno meddalwedd yn y dyfodol megis Porth Clinigol Cymru a System Rheoli Gwybodaeth Labordai. Ddechrau 2011, sefydlodd y Bwrdd Grŵp Safonau Data i helpu i gyflawni prosiect y prif fynegai cleifion. Rhydd lwyfan i safoni'r agenda ansawdd data corfforaethol. Fel rhan o'r prosiect, mae

materion ynghylch ansawdd data yn cael eu nodi a'u datrys, neu byddant yn cael eu nodi a'u datrys. Ymhlith yr enghreifftiau mae'r canlynol:

- mae polisi a phroses cofrestru cleifion cenedlaethol yn cael eu hystyried, er mai araf fu'r cynnydd;
- sefydlwyd y grŵp safonau data lleol ac mae'n mynd i'r afael â materion a chamgymeriadau allweddol; ac
- yn y dyfodol, bydd staff yn rhedeg adroddiadau o'r prif fynegai cleifion i gefnogi'r gwaith o lanhau data system.

Mae systemau cyfathrebu, addysgu a hyfforddi ar waith o ran ansawdd data, ond gallent fod yn well ac yn fwy cyson

- 29.** Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio amrywiaeth o dulliau cyfathrebu sy'n targedu staff mynediad data a gweithwyr proffesiynol eraill i hyrwyddo'r gwaith o wella ansawdd data. Ymhlith y dulliau cyfathrebu a ddefnyddir mae:
- cyfryngau ysgrifenedig megis negeseuon e-bost, taflenni, cylchlythyrau wythnosol, hysbysfyrddau; a
 - sesiynau grŵp a thîm sy'n hyrwyddo ansawdd data fel rhan o'r agenda.
- 30.** Ar hyn o bryd, nid yw'r tri phrif safle yn darparu hyfforddiant ar ansawdd data nac yn sefydlu staff yn yr un modd. Nid yw hyfforddiant ar ansawdd data yn rhan o'r broses sefydlu staff yn y Gorllewin (Ysbyty Gwynedd). Yn y Canol (Glan Clwyd) mae diwrnodau sefydlu sy'n cynnwys ymwybyddiaeth o ansawdd data. Mae proses sefydlu ar-lein ar gael i newydd-ddyfodiaid yn y Dwyrain (Maelor Wrecsam), ond nid yw bob amser yn cael ei chwblhau fel mater o drefn cyn i staff ddechrau yn eu swydd newydd.
- 31.** Hefyd, mae hyfforddiant gloywi ar y system gweinyddu cleifion, sy'n cynnwys ansawdd data ar gyfer pawb sy'n ei defnyddio, yn amrywio rhwng safleoedd:
- Yn y Gorllewin, nid oes hyfforddwyr ffurfiol, ac fel rheol caiff hyfforddiant gloywi ei adael i reolwyr a goruchwylwyr sy'n rhannu'r hyn maent yn ei wybod. Roedd staff Cofnodion Meddygol yn ymdrin ag ansawdd data mewn ffordd bendant ond roeddent o'r farn y byddai hyfforddiant o fudd iddynt.
 - Yn y Canol, ceir uned hyfforddiant TG sy'n cwmpasu ystod eang o anghenion hyfforddi. Mae'n cynnwys hyfforddiant mewn swydd, cyrsiau a rhaglen hyfforddiant gloywi.
 - Yn y Dwyrain, mae tîm hyfforddi o fewn TG sy'n cwmpasu amrywiaeth o systemau a hefyd yn cynnal sgysiau blynyddol â meddygon iau. Caiff taflenni sylfaenol a phenodol eu strwythuro i ddiwallu anghenion lleol.
- 32.** Er bod y dull o hyfforddi codwyr clinigol yn dal i amrywio ar y tri safle, mae dulliau mwy cydgysylltiedig o gynnal hyfforddiant cyffredinol ar godio clinigol, sy'n safonol ym mhob rhan o'r Bwrdd. Rhaid i staff fynd ar gwrs sylfaen cyn eu bod yn gallu mynd ati i godio. Cynhelir cwrs gloywi bob tair blynedd a chaiff yr hyfforddiant ei gydgylltu gan uned hyfforddi'r Gwasanaeth Gwybodeg, drwy gontract gyda 3M. Mae codwyr clinigol yn

aelodau o'r Grŵp Defnyddwyr Codio Clinigol i rannu arfer da. Cyfarfu'r grŵp hwn bob chwarter.

Mae'r broses ddyddiol o gyflwyno adroddiadau dilysu ar ddata yn effeithiol ond mae trefniadau sicrhau ansawdd data annibynnol yn wannach

33. Mae trefniadau effeithiol ar waith i sicrhau ansawdd y data a roddir i Lywodraeth Cymru. Cyflwynir adroddiadau Dilysu wrth y Ffynhonnell ar bob safle er mwyn helpu i wirio a phrofi data cyn iddo gael ei gyflwyno i lywodraeth ganolog.
34. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn defnyddio adroddiadau misol electronig CHKS i helpu i ddadansoddi data a gyflwynir ar ffurf data graffigol fesul safle mewn tablau cynghrair. Mae hyn yn helpu'r tîm Gwybodeg i nodi anghysondebau a blaenoriaethu'r meysydd allweddol lle y gall fod angen mynd i'r afael ag ansawdd data.
35. Mae gan y Bwrdd Iechyd brosesau mewnol eraill o ran adborth, gwaith monitro a sicrwydd sy'n ei helpu i reoli ansawdd data. Yn eu plith mae'r canlynol:
 - Rhaglen Ddynodi Meddygon Ymgynghorol. Rhydd ddata ystadegol meddyg ymgynghorol unigol a all gael ei ddefnyddio i nodi unrhyw faterion o ran data yn eu meysydd arbenigol.
 - Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru, sy'n cefnogi'r broses ddilysu, er enghraifft, rhifau GIG ac enwau BILlau.
36. Lle y mae trefniadau wedi'u cydgyssylltu'n ganolog, mae prosesau gwirio data yn fwy cydlynol, ond fel y nodwyd uchod, erys rhywfaint o amrywio mewn prosesau a dulliau gweithredu ar y safleoedd gwahanol.
37. Dim ond os oes systemau adborth effeithiol ar waith i nodi dilysrwydd, cywirdeb, cyflawnrwydd ac amseroldeb data sy'n ei hategu y gall y Bwrdd fod yn sicr ynghylch ansawdd y wybodaeth sydd ganddo. Mae trefniadau ar waith i sicrhau ansawdd gwybodaeth allweddol am berfformiad. Mae prosesau monitro a gwirio corfforaethol o ran gwybodaeth am berfformiad yn eitem sefydlog ar agenda'r cyfarfodydd 'Mynediad' wythnosol sy'n gwirio ac yn trafod data. Ceir 'Grŵp Mynediad' sy'n cynnal cysylltiadau agos â'r Adran Wybodaeth i helpu i sicrhau dibynadwyedd gwybodaeth a chyflawni gwelliannau.
38. Mae system cadw cofnodion dda yn hanfodol er mwyn sicrhau cywirdeb gwaith codio clinigol ac felly ansawdd data. I fynd i'r afael â hyn, mae'r Bwrdd yn bwriadu cynnal Archwiliad Clinigol o systemau 'cadw cofnodion'. Fodd bynnag, nid oedd cwmpas yr archwiliad clinigol arfaethedig ar gael, ac nid oes amserlen ar gyfer yr arolygiad. Mae adolygiadau clinigol diweddar eraill wedi cynnwys adolygiad o farwolaethau fel rhan o'r ymgyrch 1,000 o Fywydau ac adolygiad o nodiadau achos yn 2010. Mae hyn wedi helpu i wella ansawdd data drwy nodi camgymeriadau wrth gofnodi marwolaethau ac afiachusrwydd.
39. O fewn y Bwrdd Iechyd, gwneir cryn ymdrech i wirio data ac mae trefniadau i gasglu, prosesu a gwirio data wedi'u safoni ar bob safle. Er enghraifft, yn 2010 cyflwynodd y

Bwrdd Iechyd broses adrodd a dilysu i sicrhau ansawdd data wedi'i echdynnu a rheolaeth fersiwn dros newidiadau i raglenni echdynnu o'r systemau gweinyddu cleifion gwahanol.

40. Mae'r gwaith o ddatblygu system Adrodd Llinell Gwasanaethau (priodoli costau i gyfnodau gofal clinigol) yn dibynnu ar ddata o ansawdd da. Mae staff yn gwneud cryn ymdrech i safoni a gwirio data a ddaw o'r tair system gweinyddu cleifion etifeddiaeth, ar lefel gorfforaethol a lefel weithredol. Ceir hefyd nifer o brosesau gwirio llai ffurfiol i helpu i ddilysu a glanhau data sy'n deillio o fentrau megis archwiliadau codio clinigol lleol yn erbyn nodiadau achos.
41. Ar hyn o bryd, ni cheir rhaglen archwilio ansawdd data ffurfiol i roi sicrwydd, ond mae enghreifftiau o adolygiadau sydd wedi'u comisiynu'n lleol. Mae'r Bwrdd yn ystyried cyflwyno rhaglen archwilio dreigl drwy ddarparwyr allanol.
42. Nid yw archwiliadau o ansawdd data wedi'u ffurfioli ond ymhlith y cynlluniau Archwilio Mewnol mae rhai agweddau penodol ar ansawdd gwybodaeth a data, megis ansawdd rhestrau aros. Dylai hyn helpu i asesu, nodi, dilysu a rhoi sicrwydd annibynnol ar faterion ansawdd data a chefnogi gwelliannau. Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol hefyd yn bwriadu asesu cywirdeb ac ansawdd adroddiadau Bwrdd a fydd yn cynnwys gwiriadau sampl am gyfnod o amser er mwyn dilysu data sylfaenol.

Dengys ein dadansoddiad o ddata fod y prosesau o ran ansawdd data yn weddol effeithiol, ond mae rhai meysydd i'w gwella

43. Fel rhan o'n dull archwilio, rydym wedi ystyried a thargedu ein hasesiad o berfformiad ansawdd data lle mae modd ei gymharu'n genedlaethol, a lle y gallem gysylltu canfyddiadau ag effeithiolrwydd proses weithredol, a meysydd risg clinigol neu fusnes dilynol. Mae hyn yn cynnwys adolygu'r setiau data dilysu data cenedlaethol a hefyd ddadansoddi data demograffig electronig 8.5 miliwn o gofnodion gweinyddu cleifion a 5.2 miliwn o gofnodion gweinyddu radioleg.
44. Fodd bynnag, mae ein dadansoddiad yn gul ei gwmpas yng nghyd-destun y nifer fawr o setiau data clinigol a busnes a ddelir gan y Bwrdd Iechyd. Felly, ni ellir ond ystyried y dadansoddiad yn ddangosydd neu'n ddirprwy ar gyfer effeithiolrwydd cyffredinol trefniadau ansawdd data yn y Bwrdd Iechyd.


Ar y cyfan, mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflawni targedau dilysu data ar gyfer setiau data allweddol, ond gellid gwella data'r adran achosion brys ymhellach

45. Ledled Cymru, mae Byrddau Iechyd yn cyflwyno data i'r Gwasanaeth Gwybodeg sydd yna'n gwirio ei ddilysrwydd. Yna caiff canlyniadau'r gwaith hwn eu rhannu â'r Byrddau Iechyd yn rheolaidd; fel arfer bob mis neu ddeufis.

46. Rydym wedi adolygu'r pedwar adroddiad dilysu data ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Tachwedd 2011. Mae'r adroddiadau hyn yn edrych ar ofal cleifion a dderbyniwyd i'r ysbyty, atgyfeirio cleifion allanol, gweithgarwch cleifion allanol a'r adran damweiniau ac achosion brys. Mae adroddiadau'r Gwasanaeth Gwybodeg yn nodi lle mae'r meysydd data wedi cyflawni'r targed cenedlaethol (Arddangosion 1-4). Rhydd y wybodaeth a roddir yn Arddangosion 1 i 4 grynodedb o adroddiadau'r Gwasanaeth Gwybodeg a dengys ganran y meysydd data sy'n cyflawni'r targed cenedlaethol ar gyfer y dangosydd hwnnw.
47. Ar y cyfan dengys yr arddangosion fod y Bwrdd Iechyd yn cyflawni'r rhan fwyaf o dargedau dilysrwydd, ond mae'n perfformio islaw Cyfartaledd Cymru. Er enghraifft, dengys Arddangosyn 1 fod y Bwrdd Iechyd yn cyflawni'r targedau dilysrwydd cenedlaethol ar gyfer 93 y cant o'r eitemau data a gafodd eu gwirio o fewn y set ddata honno o ofal cleifion a dderbyniwyd i'r ysbyty. Fodd bynnag, dengys Arddangosyn 4 na chyflawnir y targedau dilysrwydd ar gyfer y set ddata adran damweiniau ac achosion brys o fwllch ehangach yn y Bwrdd Iechyd. Mae hon yn broblem gyffredin yn y rhan fwyaf o Fyrddau Iechyd yng Nghymru.


Arddangosyn 1

Gofal cleifion a dderbyniwyd i'r ysbyty – dilysrwydd set ddata




Arddangosyn 2

Atgyfeirio cleifion allanol – dilysrwydd set ddata




Arddangosyn 3

Gweithgarwch cleifion allanol – dilysrwydd set ddata



Arddangosyn 4

Adran Achosion Brys – dilysrwydd set ddata



Yn ôl ein dadansoddiad o ddata demograffig systemau gweinyddu cleifion a RADIS, mae rheolaethau rhesymol effeithiol ar waith ond mae cofnodion heb rif GIG arnynt yn peri risg i'r Bwrdd

48. Un o gonglfeini allweddol data o ansawdd da yn y GIG yw gwybodaeth ddemograffig am gleifion, er enghraifft, enw, cyfeiriad a dyddiad geni. Mae systemau gwybodaeth cleifion ar wahân yn aml yn cael eu defnyddio mewn ysbytai ac adrannau gwahanol megis Radioleg. Golyga hyn y gall fod gan glaf sydd wedi derbyn gofal mewn nifer o leoliadau gwahanol sawl cofnod a rhif adnabod. Mewn sefyllfa o'r fath, mae'n annhebygol y bydd yr holl wybodaeth glinigol am y claf hwnnw yn cael ei chadw mewn un man, sy'n peri risgiau posibl o ran diogelwch clinigol ac yn ei gwneud hi'n anos dod o hyd i'r cofnodion cywir ar gyfer y claf cywir.
49. Yn ogystal ag ystyried y trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd data fel y trafodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, gwnaethom gynnal profion data demograffig. Bwriedir i'n profion ategu ein hasesiad o drefniadau ansawdd data'r Bwrdd, drwy edrych ar ddangosydd data o ansawdd da. Gwnaethom ddadansoddi'r data cleifion demograffig craidd ar systemau gweinyddu cleifion a RADIS, er mwyn asesu i ba raddau y cafwyd dyblygu o ran cofnodion, neu achosion lle'r oedd rhifau adnabod cleifion ar goll. Gwnaed y canfyddiadau allweddol canlynol yn dilyn y gwaith hwn:

-
- Mae'r data demograffig cleifion ar y systemau gweinyddu cleifion yn cynnwys 19,026 (1.2 y cant) o rifau GIG wedi'u dyblygu, ond mae 11,429 (2.0 y cant) o rifau wedi'u dyblygu ar system gweinyddu cleifion Ysbyty Gwynedd. Dengys hyn fod dulliau glanhau yn rhesymol a bydd yn helpu i leihau camgymeriadau, risg ac aneffeithlonrwydd, er yn ddelfrydol ni ddylai fod unrhyw ddyblygu.
 - Nid oes gan 295,000 (18 y cant) o gofnodion cleifion ar systemau gweinyddu cleifion rif GIG. Gan ystyried hen gofnodion cleifion a chofnodion cleifion tramor, dim ond nifer gyfyngedig o gleifion newydd ddylai fod heb rif GIG o hyd. Dengys ein gwaith fod rhwng tua 5,000 a 10,000 o gofnodion o'r fath yn cael eu hychwanegu bob blwyddyn, er i bron 50,000 ddigwydd yn 2009. Gall hyn fod yn arwydd nad yw gweithdrefnau ar gyfer sefydlu cleifion newydd yn cael eu dilyn yn effeithiol. Awgryma'r perfformiad hwn fod risgiau clinigol posibl ynghlwm wrth nodi cofnodion cywir cleifion. Fodd bynnag, gall hefyd beri cost ariannol oherwydd dim ond am wasanaethau a ddarperir i gleifion lle mae rhif GIG yn ei gwneud yn bosibl i'w hadnabod y gall y Bwrdd lechyd godi tâl ar fyrddau iechyd eraill ac ymddiriedolaethau yn Lloegr.
 - Dim ond 0.09 y cant o rifau sydd wedi'u dyblygu ar gyfer y data demograffig cleifion a ddelir ym mhob system RADIS yn y Canol a'r Gorllewin ond mae 2.28 y cant o rifau GIG wedi'u dyblygu yn y Dwyrain. Mae nifer y cleifion heb rifau GIG ar y system yn peri mwy o bryder, sef 11.3 y cant yn y Canol a'r Gorllewin, a 15.1 y cant yn y Dwyrain. Gall hyn fod o ganlyniad i geisiadau diagnostig gofal sylfaenol neu gymunedol, ond gall ei gwneud hi'n anodd olrhain a chysylltu'r holl weithgarwch diagnostig radioleg ar gyfer claf â'i gofnod system gweinyddu cleifion. Felly, mae'n bosibl y gall un o'r cleifion hyn gael ei amlygu i fwy o Belydrau-x na'r hyn a ganiateir gan y gyfraith o dan reoliadau IRMA.
- 50.** Mae'r canfyddiadau uchod yn gyson â'n hadolygiad o'r prosesau ansawdd data sydd ar waith sy'n cynnwys gwaith rheoli gwybodaeth a thechnoleg a gwybodeg diweddar a pharhaus y Bwrdd. Mae gwaith y Bwrdd wedi gwella data allweddol wrth baratoi ar gyfer gweithredu Myrddin a'r Prif Fynegai Cleifion. Er nad yw ein dadansoddiad o ddata yn awgrymu bod risg sylweddol i'r Bwrdd, gall fod risg glinigol ac aneffeithlonrwydd busnes yn gysylltiedig â chleifion heb rif GIG, fel y nodwyd uchod. Dylai meysydd ar gyfer gwella gael eu hymgorffori mewn cynlluniau prif fynegai cleifion a phrosesau glanhau sy'n bodoli eisoes. Rhoddir manylion pellach am ganlyniadau ein profion data yn Atodiad 1.

Atodiad 1

Canlyniadau'r dadansoddiad o ddata demograffig cleifion

Fel rhan o'r gwaith maes ar ansawdd data, cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru ddadansoddiad o ddata demograffig cleifion ar systemau gweinyddu cleifion a systemau radioleg. Ceir crynodeb o'n canfyddiadau yn yr atodiad hwn.

Noda'r tabl isod ystadegau perthnasol allweddol o'n dadansoddiad o gofnodion. Rydym hefyd wedi cynnwys set o siartiau sy'n rhoi syniad o ansawdd data yn y Bwrdd.

Dangosydd	Y Bwrdd	Cymru
Cyfanswm nifer y cofnodion cleifion electronig (system gweinyddu cleifion) yn y Bwrdd: <ul style="list-style-type: none">Cofnodion yn Ysbyty Gwynedd (Gorllewin)Cofnodion yn Ysbyty Glan Clwyd (Canol)Cofnodion ym Maelor Wrecsam (Dwyrain)	1,644,991 577,191 607,495 460,225	8.5 miliwn (cyfanswm)
Cyfanswm nifer y cofnodion heb rif GIG wedi'i gofnodi: <ul style="list-style-type: none">Ysbyty Gwynedd (Gorllewin)Ysbyty Glan Clwyd (Canol)Maelor Wrecsam (Dwyrain)	295,224 (18%) 124,608 125,229 45,337	1,150,090 (cyfanswm) 16% (cyfartaledd)
Cyfanswm nifer cofrestriadau lluosog systemau gweinyddu cleifion yn y Bwrdd rhwng safleoedd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn unig: <ul style="list-style-type: none">Rhwng systemau'r Gorllewin a'r CanolRhwng systemau'r Canol a'r DwyrainRhwng systemau'r Dwyrain a'r Gorllewin	219,714 (13%) 104,206 86,664 28,891	
Cyfanswm nifer y cofrestriadau lluosog o fewn pob system gweinyddu cleifion unigol: <ul style="list-style-type: none">GorllewinCanolDwyrain	19,026 (1.2%) 11,429 (2.0%) 2,698 (0.4%) 4,899 (1.1%)	6.2% (cyfartaledd)
Cyfanswm nifer y cofnodion Radioleg yn y Bwrdd: <ul style="list-style-type: none">Ysbyty Gwynedd a Glan Clwyd (Gorllewin a Chanol)Maelor Wrecsam (Dwyrain)	782,754 375,975 406,779	5.2 miliwn (cyfanswm)


Dangosydd	Y Bwrdd	Cymru
Cofnodion mewn systemau gweinyddu cleifion â mwy nag un cofnod Radioleg cyfatebol yn ôl Rhif GIG.	11,727 (2) 150 (tri neu fwy)	5,821 (dau gofnod) 237 (tri chofnod neu fwy) Noder: Cyfartaledd
Cofnodion Radioleg â mwy nag un cofnod system gweinyddu cleifion cyfatebol.	36,440 (2) 556 (tri neu fwy)	20900 (2) 758 (tri neu fwy) Cyfartaledd

Mae gwybodaeth ddemograffig lân wedi'i rheoli'n dda yn rhagofyniad ar gyfer lefel dda o ansawdd data cyffredinol. Mae'r dangosyddion a werthuswyd gennym uchod ac a gyflwynir yn y graffiau dilynol yn cymharu'n ffafriol â gweddill Cymru ar y cyfan. Fodd bynnag, mae nifer uwch na'r disgwyl o gofnodion system gweinyddu cleifion heb rifau GIG yn y Canol a'r Gorllewin. Mae hefyd nifer uwch na'r cyfartaledd o gofnodion radioleg heb rifau GIG na rhifau adnabod ysbytai. Gall y problemau hyn beri risg glinigol oherwydd mae'n bosibl y caiff nodiadau achos cleifion eu dyblygu, a gall y driniaeth a roddir fod yn seiliedig ar hanes achos rhannol yn unig. Mae'n anos olrhain a chanfod cofnodion heb rif GIG a all beri cost ariannol os nad yw'r Bwrdd Iechyd yn gallu ailgodi tâl ar fyrddau iechyd eraill yn briodol.

Wrth edrych ar gofrestriadau lluosog yn y systemau gweinyddu cleifion, gwelsom fod lefel isel o gofrestriadau lluosog yn y tair system unigol, gyda thua 1.2 y cant ar gyfartaledd sydd ymhlith yr isaf yng Nghymru (gorau po isaf). Mae hyn yn golygu bod y Bwrdd Iechyd wedi cael peth llwyddiant yn dileu achosion diangen o ddyblygu o fewn pob system ac felly'n lleihau'r risg y bydd ei gofnodion ei hun yn cynnwys gwybodaeth rannol yn unig.


Cymhlethdod arall yw nifer y cofnodion heb rif GIG, sef 295,224 (18 y cant) yn y Bwrdd Iechyd. Yn hanesyddol, mae'r cofnodion hyn yn digwydd tua 5,000 i 10,000 y flwyddyn ac eithrio 2009 lle ymddangosodd dros 50,000, a allai fod o ganlyniad i'r ffaith bod systemau ysbytai wedi cael eu huno. Mae hon yn broblem fwy dyrus, a bydd angen mynd i'r afael â hi fel rhan o brosiect newydd y Prif Fyngai Cleifion.

Siart 1 – System Gweinyddu Cleifion: Cleifion â sawl rhif adnabod gwahanol




Mae Siart 1 yn nodi'r cofrestrïadau lluosog, ond gyda gwahanol rifau adnabod ym mhob system gweinyddu cleifion unigol yng Nghymru. Mae hyn yn golygu bod achosion lle mae gan gleifion unigol fwy nag un cofnod electronig ar safle unigol. Gall hyn beri risg glinigol os oes dyblygu mewn perthynas â nodiadau achos ysgrifenedig y claf hefyd. Mae'r siart yn dangos bod gan y Bwrdd Iechyd 1.1 y cant sy'n gofrestrïadau lluosog o'r un claf (a nodwyd gan Rif GIG wedi'i ddyblygu ne u baru enw â dyddiad geni) sy'n cyfateb i nifer wirioneddol o 14,099. Caiff BILlau eraill yng Nghymru eu cynnwys yn ddienw, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn cymharu'n ffafrio â'r rhain.

Siart 2 – System Gweinyddu Cleifion: Cleifion heb rifau GIG wedi'u cofnodi




Mae Siart 2 yn dangos nifer yr achosion o gofnodion heb rif GIG rhwng gwahanol systemau gweinyddu cleifion ledled Cymru. Er ei bod yn dal i fod yn bosibl adnabod cleifion yn ôl eu manylion personol, neu drwy ddefnyddio rhifau ysbyty sy'n bodoli eisoes, mae'r dulliau hyn yn llai manwl gywir na defnyddio rhifau GIG; gall manylion personol fod yn aneglur neu efallai na fyddant ar gael, a defnyddiwyd nifer o systemau rhif mewn ysbytai ledled Cymru. At hynny, gall diffyg rhif GIG gael effaith ariannol ar BILlau am na allant adennill costau triniaeth sy'n gysylltiedig â chleifion o BILlau eraill yng Nghymru neu yng ngweddill y DU heb ddyfynnu'r rhif GIG.

Siart 3 – Radioleg: Cleifion â sawl rhif adnabod gwahanol



Mae Siart 3 yn nodi'r cofrestriadau lluosog, ond gyda rhifau adnabod gwahanol ym mhob system radioleg unigol yng Nghymru. Mae hyn yn golygu bod achosion lle mae gan gleifion unigol fwy nag un cofnod electronig ar safle unigol. Gall hyn beri risg glinigol ac arwain at gofnod diagnostig anghyflawn os mai dim ond ar un o gofnodion electronig y claf y caiff canlyniadau eu cofnodi. Caiff BILlau eraill eu cynnwys yn ddiennw, ac mae data'r Bwrdd Iechyd a ddelir yn systemau'r Canol a'r Gorllewin sydd newydd uno yn cymharu'n ffafriol â BILlau eraill yng Nghymru. Mae'r data ar gyfer y Dwyrain yn gymharol uwch a gall fod angen gwneud peth gwaith ychwanegol i leihau achosion o ddyblygu cofnodion.


Siart 4 – Radioleg: Cleifion heb rif adnabod wedi'u cofnodi



Mae Siart 4 yn cymharu cofnodion radioleg heb rif adnabod o gwbl (rhif GIG neu rif ysbyty) ym mhob system radioleg a ddefnyddir yng Nghymru. Mae'n anodd paru'r cofnodion hyn â chofnod cyfatebol ar y system gweinyddu cleifion.

Gall hyn beri risg glinigol oherwydd mae'n bosibl mai dim ond rhannol gynrychioli cofnod electronig llawn y claf y bydd achos o chwilio am wybodaeth amdano drwy'r system gweinyddu cleifion. O ran effeithlonrwydd, gall olygu bod cleifion yn cael mwy o archwiliadau radioleg nag sydd eu hangen. Caiff BILlau eraill yng Nghymru eu cynnwys yn ddiennw, ond mae'r Bwrdd Iechyd yn cymharu'n llai ffafriol â hwy, gan ei fod tua'r pegwn uchaf.


Siart 5 – System Gweinyddu Cleifion a Radioleg: Cleifion â dau neu fwy o gofnodion Radioleg



Mae Siart 5 yn cymharu nifer yr achosion lle mae gan glaf sydd ag o leiaf un cofnod yn y system gweinyddu cleifion ddau neu fwy o gofnodion cysylltiedig yn y system radioleg. Yn yr achos hwn, rydym wedi ystyried yr holl systemau gweinyddu cleifion a radioleg ym mhob bwrdd iechyd gyda'i gilydd.

Mae hyn yn golygu bod gan un claf fwy nag un cofnod Radioleg. O fewn y Bwrdd Iechyd, cafwyd bod gan tua 12,000 o gleifion ddau gofnod Radioleg ar wahân (sydd uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru) ac roedd gan 150 dri neu fwy (islaw cyfartaledd Cymru gyfan). Mae'r lefelau hyn yn debygol o adlewyrchu'r llif cleifion drwy'r Bwrdd Iechyd a welwyd gennym eisoes mewn data blaenorol. Gall hefyd ddeillio o'r sefyllfa hanesyddol lle mae systemau blaenorol wedi uno. Y risgiau a geir yma yw y gall y darlun sydd gan glinigwyr adeg triniaeth fod yn anghyflawn, neu fod cleifion wedi cael mwy o archwiliadau radioleg na'r hyn roedd ei angen.

Siart 6 – System Gweinyddu Cleifion a Radioleg: Cleifion â chofnodion Radioleg a dau neu fwy o gofnodion System Gweinyddu Cleifion



Mae Siart 6 yn dangos achosion lle mae gan glaf o leiaf un cofnod Radioleg a mwy nag un cofnod System Gweinyddu Cleifion. Mae'r patrwm ar gyfer Cymru yn debyg iawn i'r hyn a welir yn Siart 5, er bod y niferoedd dan sylw yn sylweddol uwch. Mae hyn yn debygol o ddeillio o'r ffaith bod cofrestrïadau lluosog mewn Systemau Gweinyddu Cleifion yn llawer mwy cyffredin nag mewn systemau Radioleg. Mae'r un risgiau clinigol yn gymwys am ei bod hi'n anodd sicrhau bod yr holl wybodaeth radioleg yn weladwy wrth chwilio am gleifion unigol.



WALES **AUDIT** OFFICE

SWYDDFA **ARCHWILIO** CYMRU

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Ffôn: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Ffacs: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk

E-bost: info@wao.gov.uk

Website: www.wao.gov.uk

Gwefan: www.wao.gov.uk